Ymwybyddiaeth Diogelwch Seiber: Cyngor Syml ar gyfer Aros yn Ddiogel Ar-lein

Gydag ymosodiadau seiber yn dod yn fwyfwy soffistigedig, mae'n hanfodol bod pawb yn deall hanfodion aros yn ddiogel ar-lein.
Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ymarferol hawdd i'w ddilyn y gall unrhyw un ei roi ar waith er mwyn gwella eu diogelwch digidol yn sylweddol.


Cofiwch: Mae Pawb yn Gyfrifol am diogelwch Seiber

Byddwch yn Wyliadwrus yn y Gwaith

Gweithredwch arferion diogelwch gorau yn eich amgylchedd proffesiynol. Mae eich diogelwch yn y gweithle'n effeithio ar eich sefydliad cyfan, nid dim ond chi.

Helpwch Eraill

Rhannwch eich gwybodaeth a helpwch ffrindiau, teulu a chydweithwyr i aros yn ddiogel ar-lein. Mae pawb yn elwa o ddiogelwch cyfunol.



Diogelwch Eich Cartref

Defnyddiwch yr un meddylfryd diogelwch ar gyfer cyfrifon a dyfeisiau personol. Mae diogelwch adref ac yn y gwaith yn gydgysylltiedig yn ein bywydau digidol.

Adolygwch yn Rheolaidd

Aseswch eich arferion diogelwch yn rheolaidd a diweddarwch eich arferion wrth i fygythiadau esblygu a mesurau amddiffynnol newydd ddod ar gael.

Er mwyn cael gwybod mwy neu drefnu digwyddiad ymwybyddiaeth neu hyfforddi, cysylltwch â ni ar: protect@dyfed-powys.police.uk

Heddlu • Police
DYFED-POWYS
Uned Troseddau Economaidd a Seiber
Economic and Cyber Crime Unit (ECCU)

Trowch Ddilysu Aml-ffactor Ymlaen



Haen Ychwanegol o Amddiffyniad

Mae angen ail fath o gadarnhad ar gyfer dilysu aml-ffactor, megis cod a anfonir i'ch ffôn, sy'n ychwanegu diogelwch hanfodol tu hwnt i gyfrineiriau yn unig.

Hyd yn Oed os yw Cyfrineiriau'n Cael eu Cyfaddawdu

Mae eich cyfrifon dal wedi'u diogelu pan fod gan ymosodwyr eich cyfrinair ond nid oes ganddynt fynediad i'ch ail ffactor.

Galluogi ar Bob Cyfrif

Blaenoriaethwch e-bost, bancio, cyfryngau cymdeithasol, a systemau gwaith. Rhain yw'r cyfrifon sydd bwysicaf i'ch diogelwch a'ch preifatrwydd.

Defnyddiwch Gyfrineiriau Cryf ac Unigryw

Crëwch Gyfrineiriau Hir a Chymhleth

Ystyriwch gyfuno tri gair ar hap ar gyfer cyfrineiriau cofiadwy ond cryf.
Bydd cynnwys cymysgedd o briflythrennau, llythrennau bach, rhifau a symbolau hefyd yn eu gwneud yn gryfach.

Peidiwch Byth ag Ailddefnyddio Cyfrineiriau

Dylai pob cyfrif gael ei gyfrinair unigryw ei hun. Os yw un cyfrif yn cael ei gyfaddawdu, bydd cyfrifon eraill dal yn ddiogel.

Defnyddiwch Reolwr Cyfrinair

Mae rheolwyr cyfrinair dibynadwy'n cynhyrchu a chadw cyfrineiriau'n ddiogel ac yn eu llenwi'n awtomatig, gan wneud arferion cyfrinair cryf yn ddiymdrech.



Adnabod ac Adrodd am Ymdrechion i We-rwydo

Arwyddion i Chwilio Amdanyn Nhw

- Iaith brys neu fygythiol
- Ceisiadau am wybodaeth bersonol neu ariannol
- Dolenni neu gyfeiriadau e-bost amheus

Peidiwch Byth â Chlicio ar Gynnwys Annisgwyl

Osgowch glicio ar atodiadau neu ddolenni gan anfonwyr anhysbys neu e-byst annisgwyl, hyd yn oed os yw'n ymddangos fel petaent wedi'u hanfon gan ffynonellau cyfarwydd.

Dilyswch!

Ddim yn siŵr p'un a yw neges yn ddilys? Dewch o hyd i ffordd ddibynadwy o wirio manylion yr anfonwr, megis ei alw ar rif rydych chi'n gwybod sy'n eiddo iddo a gwirio p'un a yw wedi anfon y neges.

Adrodd a Dileu

Adroddwch am e-byst gwe-rwydo'n syth i'ch tîm TG, yna dilëwch nhw er mwyn atal clicio damweiniol yn y dyfodol.



Diogelwch Eich Dyfeisiau a’ch Cysylltiadau

Clowch Eich Dyfeisiau

Defnyddiwch rifau PIN, cyfrineiriau neu ddiogelwch biometreg ar bob dyfais. Mae hyn yn atal mynediad diawdurdod os yw’ch dyfais yn cael ei cholli neu ei dwyn.

Peidiwch â Defnyddio Wi-Fi Cyhoeddus ar gyfer Tasgau Sensitif

Peidiwch â defnyddio Wi-Fi cyhoeddus neu anniogel ar gyfer bancio neu weithgareddau eraill sensitif. Defnyddiwch Rwydweithiau Preifat Rhithwir pan mae’n rhaid defnyddio Wi-Fi cyhoeddus.

Lawrlwythwch o Ffynonellau Swyddogol

Dylech ond lawrlwytho apiau o safleoedd swyddogol dibynadwy megis Google Play neu App Store Apple er mwyn osgoi meddalwedd maleisus.

Diweddarwch Eich Meddalwedd

Galluogwch Ddiweddariadau Awtomatig

Gosodwch eich dyfeisiau a'ch apiau i ddiweddaru'n awtomatig. Mae hyn yn sicrhau eich bod chi'n derbyn patsys diogelwch heb unrhyw oedi neu ymyrraeth â llaw.

Amddiffyniad yn Erbyn y Bygythiadau Diweddaraf

Mae diweddariadau'n patsio gwendidau diogelwch ac yn gwarchod rhag y bygythiadau seiber diweddaraf ac amrywiadau maleiswedd a ddarganfuwyd gan ymchwilwyr diogelwch.

Peidiwch ag Oedi i Osod

Pan gewch eich annog i osod diweddariadau, peidiwch ag oedi. Mae oedi'n gadael eich systemau'n agored i namau diogelwch sy'n hysbys.

Heriwch Ef Os Oes Gennych Amheuon



Dilynwch Eich Greddf

Gall ymosodiadau seiber fod yn gynnil a soffistigedig. Os yw rhywbeth yn teimlo'n amheus neu'n anarferol, peidiwch ag anwybyddu'r teimlad hwnnw a cheisiwch gymorth gan weithwyr proffesiynol TG neu dimoedd diogelwch.

Adroddwch am Ddigwyddiadau'n Brydlon

Adroddwch am unrhyw gamgymeriadau neu ddigwyddiadau diogelwch yn gyflym, megis clicio ar ddolen amheus drwy ddamwain. Gall adrodd yn gynnar leihau'r niwed posibl i chi a'ch sefydliad yn sylweddol.

Mae Rhannu Gwybodaeth yn Gwarchod Pawb

Pan fyddwch chi'n rhannu gwybodaeth am fygythiadau rydych chi wedi dod ar eu traws, rydych chi'n helpu i ddiogelu cydweithwyr, ffrindiau a theulu rhag ymosodiadau tebyg.

Byddwch yn Ddiogel, Byddwch yn Wybodus

Taith barhaus, nid pen taith, yw seiberddiogelwch. Mae bygythiadau'n esblygu'n barhaus, ac mae ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf yn hanfodol ar gyfer cynnal diogelwch effeithiol.

Adnoddau Dibynadwy

Galwch heibio i'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (y DU) am ganllawiau cynhwysfawr a diweddar am seiberddiogelwch a chudd-wybodaeth am fygythiadau.

https://www.ncsc.gov.uk

Dysgu Parhaus

Addysgwch eich hun yn rheolaidd am fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, technolegau amddiffynnol newydd, ac arferion gorau sy'n esblygu mewn diogelwch digidol. Gall bod yn aelod o Ganolfan Seiberwydnwch Cymru eich helpu i gael y newyddion diweddaraf am fygythiadau.
https://wcrcentre.co.uk

Rhannu Gwybodaeth

Helpwch i greu amgylchedd digidol mwy diogel drwy rannu'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu ag eraill yn eich rhwydweithiau personol a phroffesiynol.

Neges Atgoffa am Hanfodion Seiberddiogelwch

Heddlu · Police
DYFED-POWYS
Uned Troseddau Economaidd a Seiber
Economic and Cyber Crime Unit (ECCU)

Cyfeiriwch at yr isod ar gyfer sganio cyflym ac atgyfnerthu arferion diogelwch hanfodol.

Cyfrineiriau Cryf

Cyfrineiriau unigryw a chymhleth ar gyfer pob cyfrif

Dilysu Aml-ffactor

Dilysu ychwanegol tu hwnt i gyfrineiriau

Ymwybyddiaeth o We-rwydo

Adnabod e-byst amheus ac adrodd amdanynt

Diweddariadau Meddalwedd

Sicrhau bod systemau wedi'u patsio ac yn ddiweddar

Diogelwch Dyfeisiau

Cloi dyfeisiau a diogelu cysylltiadau

Adrodd am Ddigwyddiadau

Herio gweithgareddau amheus yn brydlon